## Gadael Neuadd

Mae eich Cytundeb Preswyl (Contract Meddiannaeth) am gyfnod penodol ac ni ellwch adael Neuaddau yn ystod y cyfnod hwn oni bai y gellwch ddarparu tenant arall i gymryd drosodd weddill eich contract. Rhaid iddo/iddi fod yn fyfyriwr sydd wedi cofrestru yn y Brifysgol ac yn dderbyniol i'r Brifysgol.

Os ydych yn fyfyriwr israddedig, rhaid i'r tenant a ddaw'n eich lle hefyd fod yn fyfyriwr israddedig, neu os ydych yn fyfyriwr sy'n dychwelyd, rhaid i'r eilydd fod yn fyfyriwr sy'n dychwelyd hefyd (blynyddoedd 2, 3 neu 4). Os ydych yn fyfyriwr ôl-radd, mae'n rhaid i'r tenant newydd hefyd fod yn fyfyriwr ôl-radd. Weithiau hefyd mae'n rhaid i'r tenant newydd fod o'r un rhyw â'r tenant sy'n gadael. Gofynnwch am ganllawiau yn y Swyddfa Neuaddau. NI DDYLAI'R myfyriwr sy'n dod yn eich lle fod yn byw eisoes mewn llety sy'n eiddo i'r Brifysgol.

Dylech alw yn y Swyddfa Neuaddau gyda'r tenant sy'n dod yn eich lle i drefnu trosglwyddo'r Cytundeb Preswyl. Codir tâl arnoch nes gall y tenant arall symud i'r ystafell (mae hyn yn cynnwys amser i lanhau'r ystafell - 72 awr fel rheol).

Fel arall, os ydym wedi cytuno i derfynu eich contract am resymau meddygol byddwch yn dilyn y camau isod o bwynt 2 ymlaen.

**Os byddwch yn rhoi'r gorau i fod yn fyfyriwr yn y Brifysgol, rhaid i chi gydymffurfio â'r amodau canlynol:**

1. Cwblhewch y cais i dynnu'n ôl yn barhaol neu atal eich astudiaethau dros dro ar y ganolfan gais ar FyMangor.
2. ***Cytuno ar ddyddiad gadael gyda Swyddfa'r Neuaddau.
3. Glanhau eich ystafell a chael gwared ar yr holl ysbwriel.
4. Dychwelyd eich holl allweddi/cardiau ystafell i'r Swyddfa Neuaddau, neu i'r Swyddfa Ddiogelwch ar Bentref Ffriddoedd neu Santes Fair.
5. Talu 4 wythnos arall o rent o ddyddiad dychwelyd yr allwedd/cerdyn. Os gellwch ddarparu tenant newydd i'r ystafell, nad yw'n byw ar hyn o bryd mewn llety o eiddo'r Brifysgol, codir yn unig arnoch nes bydd y tenant newydd yn symud i'r ystafell (72 awr ar ôl i chi adael fel rheol). Os bydd y Brifysgol yn gallu cael tenant newydd i'r ystafell, codir arnoch yn unig nes bydd y tenant newydd yn symud i'r ystafell. Os na fyddwch yn dychwelyd eich allwedd/cerdyn i'r Swyddfa Neuaddau / Swyddfa Ddiogelwch ar y dyddiad gadael y cytunwyd arno, neu cyn hynny, byddwch yn dal i orfod talu nes byddwn yn derbyn yr allwedd/cerdyn.
   ***Os nad ydych wedi symud i mewn i'r Neuaddau, codir tâl arnoch am y dyddiad yr ydych wedi rhoi gwybod i ni nad ydych bellach yn mynychu Prifysgol Bangor neu'r dyddiad y mae'r Brifysgol wedi prosesu eich tynnu'n ôl, pa bynnag dyddiad yw'r olaf.